**Grŵp Monitro Barcud**

*Y Grŵp Tenantiaid ar gyfer tenantiaid Barcud Cyf.*

Adroddiad Blynyddol 2022-2023



Fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Grŵp wedi bod yn eithriadol o brysur. Mae ein gweithgareddau a'r graddau yr ydym wedi bod yn cymryd rhan yng ngweithrediadau Barcud wedi cynyddu bob blwyddyn, ac mae aelodau'r Grŵp wedi rhoi o'u hamser yn ddiwyro. Hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu hymroddiad, eu hagwedd anhunanol, eu hymrwymiad a'u hangerdd wrth gynrychioli buddiannau ein cyd-denantiaid.

Drwy gydol y flwyddyn, mae swyddogion y Grŵp Monitro wedi bod yn mynychu cyfarfodydd â Bwrdd a Chyfarwyddwyr Grŵp Barcud. Roedd y digwyddiadau hynny'n cynnwys cyfarfodydd a oedd yn ymwneud â chynllunio busnes, adolygu amcanion strategol Barcud ar gyfer y pum mlynedd nesaf a chynnal hunanasesiad y Safonau Rheoleiddio, ac yn cynnwys mynychu cyfarfodydd strategol Panel Cyswllt y Tenantiaid. Wrth fynychu'r cyfarfodydd hyn, rydym yn sicrhau bod buddiannau ein cyd-denantiaid yn parhau'n flaenoriaeth i Barcud, ac oherwydd lefel ein hymwneud gallwn gynnig barn wybodus am safbwynt y tenantiaid ar y cynnydd a wnaed hyd yma a chynnig argymhellion pellach.

Ym mis Mawrth, gwnaethom gymryd rhan yn y broses gyfweld ar gyfer recriwtio cadeirydd newydd i Fwrdd Grŵp Barcud. Yn dilyn y broses honno, roeddem yn falch o groesawu Alison Thorne yn gadeirydd newydd ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â hi a'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weld ble y gall y Grŵp Monitro chwarae rhan bellach ar lefel y Bwrdd, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd wrth i'r trafodaethau hynny barhau.

Mae swyddogion y Grŵp Monitro wedi parhau i gwrdd yn fisol â'r Tîm Arwain (y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr) a'r Tîm Rheoli Gweithredol (Penaethiaid Gwasanaeth). Yn y cyfarfodydd hynny, mae'r Grŵp Monitro yn cyflwyno ei arsylwadau, ei argymhellion a'i bryderon ac yn cael diweddariadau ynglŷn â gweithrediadau Barcud, sy'n cael eu rhannu wedyn ag aelodau'r Grŵp.

Mae staff o'r ddau dîm hefyd wedi bod yn cwrdd ag aelodau'r Grŵp Monitro i gael ein barn a'n hargymhellion ynglŷn ag amrywiaeth o bynciau. Roedd y pynciau hynny'n cynnwys y polisi pennu rhenti ar gyfer eleni (2023-24), strategaeth a pholisi newydd Barcud ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd, strategaeth newydd Barcud ynglŷn â gwerth am arian, ac adolygiad o lwyth o bolisïau newydd a phresennol o ganlyniad i weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r aelodau wedi parhau i gynnal archwiliadau ar hap o gartrefi gwag cyn eu bod yn cael eu hailosod. Creodd y Grŵp Monitro y safonau a'r rhestr archwilio a fabwysiadwyd gan Barcud. Gyda'n gilydd, rydym yn ceisio sicrhau bod popeth y mae angen iddo gael ei wneud yn cael ei wneud cyn bod tenant newydd yn symud i mewn i eiddo. At hynny, mae'r aelodau wedi bod yn cynnal archwiliadau rheoli ystadau ar y cyd ag aelodau o staff. Diben yr archwiliadau hyn yw sicrhau bod ein hystadau'n cael eu cynnal a'u cadw yn dda ac nad ydynt yn

cynnwys unrhyw beth a allai fod yn beryglus. Os oes unrhyw broblemau wedi'u nodi, mae Barcud wedi mynd i'r afael â nhw. Y Grŵp Monitro a greodd y safonau a'r rhestr archwilio ar gyfer archwiliadau rheoli ystadau'n ogystal, a chafodd y rheini hefyd eu mabwysiadu gan Barcud.



Roedd yr aelodau'n falch o ailafael yn ein harolygon dros y ffôn eleni, sy'n ein galluogi i wirio data Barcud am fodlonrwydd tenantiaid. Mae ein haelodau'n cynnal yr arolygon hyn o un o swyddfeydd Barcud, ac maent yn cael ffurflenni arolygon bodlonrwydd sydd wedi'u dychwelyd ac sydd wedi'u dewis ar hap. Mae ein haelodau'n ffonio'r tenantiaid wedyn i wirio eu hymatebion ac i weld a oes unrhyw faterion heb gael sylw o hyd. Os oes yna faterion sydd heb gael sylw, mae'r aelod o staff sy'n bresennol yn mynd i'r afael â nhw. Mae ein haelodau yn mwynhau'r gweithgarwch hwn yn fawr, oherwydd mae'n rhoi cyfle iddyn nhw siarad â thenantiaid eraill ac yn rhoi cyfle i ni wella ein dealltwriaeth o brofiadau ein tenantiaid o wasanaethau Barcud.




Eleni, mae'r Grŵp wedi cynnal dau gyfarfod o Fforwm Cyswllt y Tenantiaid. Cafodd y cyfarfod cyntaf ei gynnal yn y Drenewydd a chafodd yr ail ei gynnal yn Aberystwyth. Ar wahân i gael diweddariadau ynghylch gweithgareddau'r Grŵp Monitro, cafodd y tenantiaid ddiweddariadau ynglŷn â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, strategaeth Barcud ynghylch lleithder, llwydni ac anwedd a phroses Barcud ar gyfer pennu rhenti; diweddariadau gan Steve Jones, Prif Weithredwr Grŵp Barcud; a chyflwyniad i Alison Thorne, sef cadeirydd newydd Bwrdd Grŵp Barcud. Mae pob un o Gyfarwyddwyr Barcud wedi bod yn bresennol yn y digwyddiadau hyn ac mae'r tenantiaid wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau iddynt.

Ym mis Gorffennaf eleni, lansiodd y Grŵp Monitro ei fforwm ar-lein newydd a fydd yn cwrdd bob chwarter. Roedd y Grŵp Monitro yn gweld bod angen ymgysylltu â'n cymuned ehangach o denantiaid y tu allan i'r digwyddiadau cyhoeddus yr ydym yn eu cynnal. Mae'r fforymau hyn yn galluogi ein cyd-denantiaid i siarad yn rhydd a dysgu mwy am y Grŵp Monitro. Bydd y fforymau'n cael eu hysbysebu ar dudalen Barcud ar Facebook a bydd taflen yn cael ei hamgáu gyda'r cyfriflenni rhent bob chwarter.

Ar wahân i fynychu cyfarfodydd misol rheolaidd y Grŵp, mae'r aelodau wedi bod yn mynychu llwyth o ddigwyddiadau gyda thenantiaid eraill o bob cwr o Gymru. Mae'r digwyddiadau hynny wedi'u cynnal gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru) ac roeddent yn cynnwys y Rhwydwaith Anabledd ar gyfer Tenantiaid, cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch Safonau Ansawdd Tai Cymru yn 2023, ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Safonau Rheoleiddio Tai. Mae bob amser yn ddiddorol clywed gan gynrychiolwyr tenantiaid eraill am yr hyn y maen nhw'n ei wneud, a chael cyfle ar yr un pryd i rannu gwybodaeth â nhw am yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yma gyda Barcud. At hynny, bu dau o aelodau'r Grŵp yn cynnal gweithdy yng Nghynhadledd Flynyddol TPAS Cymru ac yn sôn am sut y mae'r Grŵp Monitro yn gweithio gyda Barcud.

Oherwydd diddordeb parhaus yn y Grŵp Monitro, mae'r Grŵp wedi creu canllaw newydd ynglŷn â sut yr ydym yn gweithredu. Mae'r canllaw wedi'i greu ar gyfer tenantiaid, Bwrdd Grŵp Barcud, staff Barcud a sefydliadau eraill sydd am wella'r graddau y caiff tenantiaid eu cynnwys yn eu gwaith. Rydym yn falch o gyhoeddi bod y canllaw wedi'i gynnwys yn y Pecynnau Sefydlu ar gyfer aelodau newydd o Fwrdd Grŵp Barcud ac aelodau newydd o staff Barcud. Mae'r canllaw ar wefan Barcud ac mae ar gael gan Barcud dim ond i chi ofyn amdano.



Nid yw'r rhestr hon yn rhestr gyflawn o weithgareddau'r Grŵp yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond rydym yn gobeithio ei bod yn taflu ychydig o oleuni ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn gweithio gyda Barcud fel aelod gwerthfawr o'r tîm. Rydym yn ddiolchgar i bawb yn Barcud am y pwys mawr y maent yn ei roi ar gynnwys tenantiaid yn wirioneddol yn eu gweithrediadau ar bob lefel, ac am y parch y maent yn ei ddangos tuag atom. Rydym hefyd yn ddiolchgar am y modd y maent yn hyrwyddo'r Grŵp i denantiaid newydd a thenantiaid presennol, sydd wedi cynyddu diddordeb ein cyd-denantiaid yn y Grŵp.

Yn olaf, hoffem nodi bod yna ffyrdd eraill heblaw'r Grŵp Monitro y gallwch ymwneud â Barcud. Os ydych yn byw yn un o'r naw o gynlluniau tai gwarchod, gallwch ymwneud â'r "Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod". Os hoffech gymryd rhan, ond i raddau llai na'r Grŵp Monitro, gallwch hefyd ymuno â'r "Fforwm Cartrefi". Os hoffech gael gwybod mwy am y fforymau hyn neu ofyn am gopi o ganllaw newydd y Grŵp Monitro, mae croeso i chi gysylltu â Sue Thomas neu Alisa Cakebread drwy ffonio 0300 111 3030 neu anfon ebost i post@barcud.cymru

Paul Clasby, Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud

